

**Y CABINET YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR
YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE
DYDD MAWRTH, 14 MEDI 2021**

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Griffith, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned) a Nêst Thomas (Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd y cofnodion fel rhai cywir.

5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal yr wybodaeth hynny) a Paragraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â'r sawl y byddai

modd cynnal hawl o fraint cyfreithiol proffesiynol mewn achos cyfreithiol.

Mae'r adroddiad ynglŷn a sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth elusen y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ohono. Felly, mae'r swyddogaeth yma ar wahân oddi wrth sefyllfa y Cyngor fel awdurdod cyhoeddus statudol ac yn ddarostyngedig i ofynion a chyfrifoldebau penodol rheolaeth elusen. Mae budd cyhoeddus mewn cael gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu mewn swyddogaeth o'r fath. Fodd bynnag mae hyn yn cael ei gyfarch drwy gyfraith elusennau, Mae'r adroddiad yma ynglŷn a thrafodion busnes ac opsiynau y dylai'r ymddiriedolwyr gael cyfle priodol i'w trafod a chloriannu mewn modd rhydd ac agored cyn dod i gasgliad gorau er budd yr elusen. Byddai cynnal y drafodaeth yn gyhoeddus yn tanseilio eu gallu i gyflawni hyn. Y Cabinet yn eistedd fel ymddiriedolwyr yw'r unig fforwm priodol ar gyfer gweithredu hyn. Felly mae'r budd cyhoeddus o blaid eithrio.

6. CYNLLUN BUSNES I GEFNOGI'R OPSIWN O GYNGOR GWYNEDD YN PARHAU I REDEG AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas

PENDERFYNIAD

Cefnogwyd y cynnig i wneud gwaith pellach i finiogi'r diffyg ariannol tebygol ac i wneud cais i Gyngor Gwynedd i asesu'r risgiau ynghlwm a'r cynllun busnes ac yn sgil hynny eu gallu i ymrwymo i gyfraniadau ariannol pellach i'r dyfodol.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10an a daeth i ben am 11am

CADEIRYDD